Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

# Newyddion Dysgu Cymraeg

## Learn Welsh News

**Haf**
Summer
**2026**

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn

# Amdanom ni

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n arwain y sector Dysgu Cymraeg, trwy ddarparu strategaeth a gwasanaethau Dysgu Cymraeg cenedlaethol er mwyn creu siaradwyr Cymraeg sy'n mwynhau defnyddio'r iaith.

Mae'r Ganolfan wedi creu cwricwlwm, cyrsiau ac adnoddau cenedlaethol, a safle rhyngweithiol, dysgucymraeg.cymru, sy'n blatfform dysgu, gwefan ac yn gronfa ddata ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg.

Mae'n arwain ar hyfforddiant tiwtoriaid, ymchwil academaidd a marchnata, ac yn cydweithio â rhwydwaith o ddarparwyr sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan, mewn cymunedau ledled Cymru, wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Yn ogystal â'r cyrsiau cymunedol, mae'r Ganolfan yn arwain ar gynlluniau ar gyfer sectorau allweddol a chyflogwyr penodol, gan gynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Gweithlu Addysg, Pobl Ifanc a Chwaraeon.

Ar 1 Awst 2027, bydd gwaith y Ganolfan yn trosglwyddo i gorff statudol newydd, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd yr Athrofa yn adeiladu ar y sylfaen lwyddiannus sydd wedi'i gosod gan y Ganolfan. Bydd yn cynnal ac ymestyn y gwaith – o ddarparu gwasanaethau Cymraeg i Oedolion i ddarpariaeth dysgu Cymraeg gydol oes.



# About us


The National Centre for Learning Welsh leads the Learn Welsh sector, providing a national Learn Welsh strategy and services in order to create Welsh speakers who enjoy using the language.

The Centre has developed a national curriculum, courses and resources, and an interactive website, learnwelsh.cymru, which is a learning platform and database for the Learn Welsh sector.

The Centre leads on tutor training, academic research and marketing, and works with a network of providers who deliver courses on its behalf in communities across Wales, both face-to-face and virtually.

As well as community-based courses, the Centre leads learning programmes for key sectors and employers, including Health and Social Care, the Education Workforce, Young People and Sport.

On 1 August 2027, the Centre's work will transfer to a new statutory body, the National Institute for Learning Welsh. The National Institute will build on the successful foundation laid by the Centre. It will maintain and expand its work, from Welsh for Adults services, to lifelong Welsh language learning.



# Croeso

Mae'r sector Dysgu Cymraeg yn mynd o nerth i nerth wrth i ni agosáu at garreg filltir arbennig, sef dathlu deng mlwyddiant sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae ein data diweddaraf yn dangos bod dros 20,000 o bobl wedi cwblhau ein cyrsiau yn ystod 2024-2025 – y nifer uchaf erioed.

Mae'r ffigwr yn adlewyrchu arbenigedd dysgu a chaffael iaith y Ganolfan, a'i huchelgais dros yr iaith, wrth iddi ymestyn ei gwasanaethau i sectorau newydd fel Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweithlu Addysg.

Mae'r cynnydd hefyd yn arwydd o frwdfrydedd, angerdd ac ymroddiad dysgwyr, tiwtoriaid, staff a phartneriaid ar draws Cymru, sydd eisiau gweld y Gymraeg yn ffynnu.

Edrychwn ymlaen at barhau i gefnogi dysgwyr o bob cefndir ar hyd pob cam o'u taith iaith, er mwyn gwireddu ein nod o greu siaradwyr Cymraeg sy'n mwynhau defnyddio'r iaith.

The Learn Welsh sector is thriving as we approach an important milestone, the ten-year anniversary of the National Centre for Learning Welsh.

Our latest data shows more than 20,000 people completed our courses during 2024-2025 – the highest ever number.

The figure reflects both the Centre's language learning expertise and its ambition for the Welsh language, as it extends its services to new sectors such as Health and Social Care and the Education Workforce.

The increase also speaks of the enthusiasm, passion and dedication of learners, tutors, staff and partners across Wales, who all share a commitment to seeing the Welsh language flourish.

We look forward to continuing to support learners from all backgrounds at every stage of their language journey, in order to fulfil our aim of creating Welsh speakers who enjoy using the language.

**Dona Lewis,**
**Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**
**Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh**



# Cefnogi pobl ifanc i ddysgu, defnyddio a mwynhau eu Cymraeg



Arweiniodd y Ganolfan gynlluniau ar gyfer pobl ifanc dalgylchoedd Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn eleni, fel rhan o'i rhaglen eang ar gyfer pobl 16-25 oed.

Derbyniodd criw o fyfyrwyr BA Addysg Prifysgol Bangor ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ychwanegol, yn ogystal â chyfle i fynychu'r maes.

Mae darpariaeth y Ganolfan hefyd yn cynnwys cynlluniau ar gyfer disgyblion ysgol, myfyrwyr Addysg Bellach, a phrentisiaid, ac mae'n gweithio â sefydliadau megis yr Urdd a Phrifysgol Met Caerdydd er mwyn denu cynulleidfaoedd iau at y Gymraeg.

# Supporting young people to learn, use and enjoy their Welsh

As part of its provision for people aged 16-25, the Centre delivered learning programmes for young people in the catchment area of the recent Urdd Eisteddfod, held in Anglesey.

Among those taking part were BA Education students from Bangor University, who received additional Learn Welsh support and had the opportunity to visit the Eisteddfod.

The Centre's provision includes programmes for school pupils, further education students and apprentices. It also works with organisations such as the Urdd and Cardiff Met University in order to reach and attract younger audiences to the Welsh language.

# Dathlu doniau dysgwyr ifanc

Roedd y Ganolfan yn falch o gefnogi'r gwobrau i ddysgwyr Cymraeg ifanc yn Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr i Katie Baddiley, enillydd Medal Bobi Jones, ac i Caerwyn Saunders, enillydd Medal y Dysgwyr, ar eu llwyddiant.

# Celebrating young learners

The Centre was proud to support the learners' medals at the Urdd Eisteddfod. Warm congratulations to Katie Baddiley, winner of the Bobi Jones Medal, and to Caerwyn Saunders, winner of the Learners' Medal, on their success.

# Llysgenhadon newydd yn ysbrydoli dysgwyr

Bydd Cynllun Llysgenhadon newydd y Ganolfan yn helpu ysbrydoli hyd yn oed yn fwy o bobl i ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg.

Mae pedwar llysgennad blaenllaw wedi'u penodi fel rhan o'r cynllun newydd, sef Aleighcia Scott, Tori James, Katie Owen, ac Ian Gwyn Hughes.

Bydd y pedwar yn cynrychioli'r Ganolfan, gan rannu eu profiadau personol o'r Gymraeg, a thynnu sylw at waith y sector Dysgu Cymraeg.


Aleighcia Scott

# New Ambassadors inspire learners

The Centre's new Ambassadors Scheme will help inspire even more people to learn, use and enjoy the Welsh language.

Four high-profile ambassadors have been appointed to the new scheme – Aleighcia Scott, Tori James, Katie Owen and Ian Gwyn Hughes.

The four ambassadors will represent the Centre, sharing their personal experiences of the Welsh language, and promoting the work of the Learn Welsh sector.


Tori James



Ian Gwyn Hughes


Katie Owen





# Mwy o gyfleoedd i weithwyr Gofal Plant

Mae'r Ganolfan yn ehangu ei darpariaeth ar gyfer y Gweithlu Gofal Plant a Chwarae gyda chynllun peilot newydd i gryfhau sgiliau Cymraeg y gweithlu ac ateb y galw cynyddol am wasanaethau dwyieithog.

Bydd y cynllun yn cynnwys rhaglenni Dysgu Cymraeg i'r gweithlu sy'n cefnogi myfyrwyr mewn colegau addysg bellach neu drwy brentisiaethau. Bydd y Ganolfan yn penodi tiwtoriaid i weithio'n uniongyrchol â'r sector a darparu hyfforddiant i weithwyr 'Dechrau'n Deg.'

Mae'r cynllun yn adeiladu ar waith y Ganolfan â'r sector ers 2017, pan ddechreuodd ddarparu hyfforddiant Cymraeg i weithwyr gofal plant. Hyd yma, mae dros 5,000 wedi manteisio ar y ddarpariaeth.

# More opportunities for Childcare workers

The Centre is expanding its provision for the Childcare and Play Workforce through a new pilot scheme designed to strengthen Welsh-language skills across the sector and meet the growing demand for bilingual services.

The scheme includes Learn Welsh training for the workforce supporting students at further education colleges or through apprenticeships. The Centre will also appoint tutors to work directly with the sector and provide training for workers on the 'Flying Start' early years support programme.

The scheme builds on the Centre's work with the sector since 2017, when it first began providing training for childcare workers. Since then, more than 5,000 individuals have taken part in the provision.





# Hyfforddiant hyblyg ar gyfer byd y campau

Mae'r Ganolfan yn cyflwyno cynllun Dysgu Cymraeg newydd ar gyfer y sector Chwaraeon, mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru. Bydd y cynllun yn cefnogi sefydliadau i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymhlith y gweithlu a gwirfoddolwyr.

Bydd y cynllun yn darparu cyfleoedd hygyrch, hyblyg wedi'u teilwra i gyd-destunau chwaraeon amrywiol, gan annog a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg.

Mae'n adeiladu ar bartneriaethau hir dymor y Ganolfan yn y maes, sy'n cynnwys darparu hyfforddiant wedi'i deilwra a thiwtoriaid Dysgu Cymraeg penodol i weithio â Chymdeithas Bêl-droed Cymru a Chlwb Pêl-droed Wrecsam.



# Flexible training for world of sport

The Centre is introducing a new Learn Welsh scheme for Sport, in partnership with Sport Wales, which will support organisations to develop Welsh-language skills among the workforce and volunteers.

The scheme will offer accessible, flexible learning opportunities designed for different sporting contexts, with the aim of encouraging and normalising the use of Welsh across the sector.

It builds on the Centre's ongoing partnerships with the Football Association of Wales and Wrexham AFC, which receive tailored support and specialist tutors.





# Cefnogi'r gweithlu Iechyd a Gofal gyda'u sgiliau Cymraeg

Mae'r Ganolfan yn arwain rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, er mwyn cefnogi 'Mwy na Geiriau', fframwaith Llywodraeth Cymru i uwch sgilio'r gweithlu i ddefnyddio mwy o Gymraeg.

Yn ddiweddar, aeth gweithwyr Iechyd a Gofal ar gwrs arbennig yn Nant Gwrtheyrn, wedi'i ddatblygu gan y Ganolfan, ac yn rhan o'i chynlluniau i gefnogi gweithwyr Iechyd a Gofal rhyngwladol i ddysgu am Gymru a'r Gymraeg.

# Supporting Health and Social Care workers with their Welsh skills

The Centre leads a comprehensive learning programme for the Health and Social Care sector, in order to support the Welsh Government 'Mwy na Geiriau/More than just words' framework, which aims to support the workforce to use more Welsh.

Recently, Health and Social Care workers completed a Learn Welsh course at Nant Gwrtheyrn, developed by the Centre as part of its work to support international healthcare workers in learning about Wales and the Welsh language.

# Heddlu Gwent yn ymuno â rhestr gynyddol o gyflogwyr sy'n derbyn gwasanaethau Dysgu Cymraeg

Heddlu Gwent yw'r diweddaraf i ymuno â rhestr gynyddol o gyflogwyr sy'n manteisio ar wasanaethau Dysgu Cymraeg y Ganolfan ar gyfer gweithluoedd.

Mae tiwtor Dysgu Cymraeg penodol yn gweithio â'r Heddlu i gefnogi staff i ddysgu a chryfhau eu sgiliau Cymraeg.

Hyd yma, mae oddeutu 2,000 o gyflogwyr a 30,000 o weithwyr wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant Dysgu Cymraeg. Mae Estyn wedi canmol y ddarpariaeth a dweud ei fod yn helpu "normaleiddio defnydd o'r iaith... o fewn sectorau allweddol."

# Gwent police join growing list of employers to receive Learn Welsh services

Gwent Police is the latest to join a growing list of employers who benefit from the Centre's Learn Welsh services for workforces.

A Learn Welsh tutor works directly with the force to support staff to learn and strengthen their Welsh skills.

To date, around 2,000 employers and 30,000 employees have taken part in the Centre's Learn Welsh training, which Estyn has praised for helping "normalise the use of the language... within key sectors."



# Staff Ffederasiwn y Saint yn arwain y ffordd gyda'r Gymraeg

Mae ffederasiwn o ysgolion yn nwyrain Caerdydd wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu defnydd o'r Gymraeg, ar ôl i dros 50 aelod o staff ymrwymo i gryfhau eu sgiliau Cymraeg.

Wrth weithio â'r Ganolfan, mae Ffederasiwn y Saint, sy'n cynnwys Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Holl Saint ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, wedi cyflwyno mwy o Gymraeg ar lawr y dosbarth, sydd wedi ennyn brwdfrydedd newydd ymhlith y disgyblion.

Mae'r Ganolfan yn arwain rhaglen genedlaethol ar gyfer y gweithlu addysg, sy'n cynnwys dewisiadau hunan-astudio gyda chymorth tiwtor, cyrsiau Dysgu Cymraeg ar wahanol lefelau, a chyrsiau preswyl sy'n canolbwyntio ar godi hyder. Ers Medi 2025, mae'r ddarpariaeth wedi ymgorffori'r cyrsiau dysgu dwys sabothol.

# Saints Federation staff lead by example to transform bilingual learning



A federation of schools in east Cardiff has seen a significant transformation in its use of the Welsh language, following a commitment by more than 50 staff members to strengthen their language skills.

By partnering with the Centre, the Saints Federation, which includes All Saints Church in Wales Primary School and St David's Church in Wales Primary School, has introduced more Welsh into the classroom, sparking a new wave of enthusiasm among pupils.

The Centre leads a national programme for the education workforce, offering self-study options with tutor support, Learn Welsh courses at a range of levels, and residential courses designed to build confidence. Since September 2025, the programme has also included intensive sabbatical courses.







# Potensial deallusrwydd artiffisial i gefnogi dysgu ieithoedd

Croesawodd y Ganolfan diwtoriaid a staff y sector Dysgu Cymraeg i'w chynhadledd flynyddol yn Llandrindod ym mis Mai. Roedd yn gyfle i bawb ddod ynghyd i fynychu gweithdai a chyfnewid syniadau, yn ogystal â chlywed gan siaradwyr gwadd.

Un o'r siaradwyr hynny oedd cyd-sylfaenydd cwmni Sakana AI, yr arbenigwr rhyngwladol ar ddeallusrwydd artiffisial, Llion Jones. Gwnaeth Llion sôn am ddatblygiadau a photensial deallusrwydd artiffisial i gefnogi dysgu ieithoedd, maes sydd o ddiddordeb i'r Ganolfan.

# AI potential to support language learning

The Centre welcomed tutors and staff from across the Learn Welsh sector to its national conference in Llandrindod in May. It was an opportunity to attend workshops, exchange ideas, and hear from a range of guest speakers.

Among the guest speakers was Llion Jones, co-founder of Sakana AI and an international expert in artificial intelligence. Llion spoke about the latest developments in AI and its potential to support language learning, an area of interest to the Centre.




# Dathlu degawd o dwf yn yr Eisteddfod

Bydd y Ganolfan yn mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llantwd fis Awst, ble bydd yn dathlu carreg filltir arbennig, sef deng mlynedd ers ei sefydlu.

Bydd digwyddiadau niferus, gan gynnwys sesiynau ym Mhabell y Cymdeithasau yn edrych ar dwf y sector ac effaith gadarnhaol siaradwyr newydd ar ddiwylliant Cymraeg. Bydd rhaglen lawn o weithgareddau ym Maes D, pentref y dysgwyr, yn ogystal â seremoni Dysgwr y Flwyddyn, un o uchafbwyntiau'r brifwyl.

# Celebrating a decade of growth at the Eisteddfod

The Centre will be attending the National Eisteddfod in Llantwd this August, where it will celebrate a special milestone, its tenth anniversary.

A range of events and activities are planned throughout the week, including two high profile sessions in the 'Pabell y Cymdeithasau' looking at the sector's growth and the positive impact of new Welsh speakers on Welsh language culture. There'll be a full programme of activities at Maes D, the Welsh learners' village, and the 'Welsh Learner of the Year' ceremony, one of the festival's highlights.

## Uchafbwyntiau'r Ganolfan yn yr Eisteddfod Genedlaethol

## The Centre's highlights at the National Eisteddfod

| | |
|---|---|
| Maes D<br>12.00pm, 1.8.26 | **Seremoni cyflwyno tystysgrifau CBAC**<br>Cyflwyno tystysgrifau i ymgeiswyr llwyddiannus arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC, y Dystysgrif Sgiliau Iaith a'r cymhwyster 'Dechrau Dysgu'.<br>***WJEC Certificate Presentation***<br>*Presentation of certificates to successful candidates in the WJEC Welsh for Adults examinations, the Language Skills Certificates and the 'Dechrau Dysgu' qualification.* |
| Maes D<br>3.00pm, 1.8.26 | **Lansiad Cynllun Dysgu Cymraeg newydd y Ganolfan ar gyfer y byd Chwaraeon.**<br>***Launch of the Centre's new Learn Welsh scheme for the sports sector.*** |
| Stondin Mwy na Geiriau/More than Words stand<br>11.30am, 3.8.26 | **Cyhoeddi Cynllun Dysgu Cymraeg newydd y Ganolfan ar gyfer Bydwragedd.**<br>***Launch of the Centre's new Learn Welsh scheme for Midwives.*** |
| Cymdeithasau 2<br>2.30pm, 3.8.26 | **Llwyfan i'r Lleisiau:** Bydd Dewi Llwyd yn trafod y diddordeb cynyddol yn y Gymraeg yng nghwmni Ifor ap Glyn, Heini Gruffudd, Dafydd Iwan, a Helen Prosser.<br>***Leading Voices:*** *Dewi Llwyd will chair a panel discussion on the growing interest in the Welsh language, with Ifor ap Glyn, Heini Gruffudd, Dafydd Iwan and Helen Prosser.* |
| Maes D<br>2.00pm, 4.8.26 | **Nifer uchaf o ddysgwyr a siaradwyr newydd** – dathlu degawd o waith y Ganolfan.<br>***Highest number of new Welsh speakers and learners*** *– celebrating a decade of achievement at the Centre.* |
| Pafiliwn/Pavilion<br>1:30pm, 5.8.26 | **Seremoni Dysgwr y Flwyddyn.**<br>***Welsh Learner of the Year ceremony.*** |
| Cymdeithasau 2<br>9.30am, 6.8.26 | **Cyfraniad siaradwyr newydd i'r Gymraeg:** Sgwrs banel, wedi'i chadeirio gan Dewi Llwyd, yng nghwmni Geraint Evans, Dafydd Meredydd, Helgard Krause, Angharad Jones Leefe a Dona Lewis.<br>***The contribution of new Welsh speakers:*** *Panel discussion chaired by Dewi Llwyd, with Geraint Evans, Dafydd Meredydd, Helgard Krause, Angharad Jones Leefe and Dona Lewis.* |
| Maes D<br>1.00pm, 6.8.26 | **Dathlu partneriaeth y Ganolfan ac S4C – blwyddyn gyntaf tiwtor Dysgu Cymraeg penodol ar gyfer y cyfryngau.**<br>***Celebrating the Centre's partnership with S4C – the first year of a dedicated Learn Welsh tutor for the media sector.*** |
| Maes D<br>11.00am, 7.8.26 | **Dathlu partneriaeth y Ganolfan â Chyngor Llyfrau Cymru, gan edrych ar lwyddiant cyfres lyfrau 'Amdani'.**<br>***Celebrating the Centre's Partnership with the Welsh Books Council, looking at the successful 'Amdani' book series.*** |

Gall rai manylion newid – ewch i dysgucymraeg.cymru am y diweddaraf, neu ebostiwch swyddfa@dysgucymraeg.cymru am fwy o fanylion.

Some details could change – please go to learnwelsh.cymru for the latest, or email office@learnwelsh.cymru for more details.



# Cyrsiau newydd mis Medi – cod disgownt ar gyfer dechreuwyr

Bydd cyrsiau Dysgu Cymraeg newydd ar bob lefel yn dechrau ym mis Medi, ac mae cod disgownt arbennig ar gyfer dechreuwyr – WELSH26. Ewch i dysgucymraeg.cymru am fwy o wybodaeth.



# New September courses – discount code available for beginners

New Learn Welsh courses at all levels will start in September, with a special discount code for beginners – WELSH26. Go to learnwelsh.cymru for more information.







## Cyrsiau ar bob lefel

Bydd cyrsiau newydd ar bob lefel Dysgu Cymraeg yn dechrau ym mis Medi, ledled Cymru ac mewn dosbarthiadau rhithiol.  Dilynwch y cod QR am fwy o fanylion.

## Courses at all levels

New courses at all Learn Welsh levels will be starting across Wales, and in virtual classrooms, in September. Please scan the QR code for more information.



Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol /
National Centre for Learning Welsh
Y Llwyfan
Heol y Coleg / College Rd
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 3EQ

Ffôn / Telephone
0300 3234324

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn